| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Ionawr 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Prif Gyfrifydd (Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| **Teitl** | Adroddiad Cyllid (Rhagfyr 2024/25) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y'u cytunwyd ar gyfer 2024/25.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ac yn cadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2024/25.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2024/25 a chynnydd yn seiliedig ar y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 23/24) fel y gwelir yn Atodiad 1. Rhagwelir y bydd tanwariant o £3.924 miliwn (tanwariant o £4.285 miliwn fis diwethaf) ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol. Mae'r symudiad o £361,000 yn ymwneud yn bennaf â chost uwch cludiant i'r ysgol a gofal cymdeithasol i blant sy'n cael ei wrthbwyso gan bwysau'r mis hwn gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae mwy o fanylion wedi'u nodi yn Adran 6 ac Atodiad 2.

4.2 Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2024/25 roedd y Cyngor yn wynebu pwysau costau o £24.6 miliwn o ganlyniad i gynnydd chwyddiannol megis cyflogau a chynnydd yn y galw am, a chostau darparu gofal cymdeithasol. Roedd y cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru ac yn lefel Treth y Cyngor yn golygu bod rhaid i wasanaethau ddod o hyd i arbedion ariannol ac effeithlonrwydd gwerth £10.384 miliwn yng nghyllideb 2024/25, fel y dangosir isod:

- **Cynigion ar gyfer gwneud Arbedion Sylweddol** - Prosiectau gwneud arbedion ar raddfa fawr (£2.388 miliwn)
- **Arbedion heb fod yn strategol** – Arbedion effeithlonrwydd gweithredol/arbedion ar raddfa lai o fewn maes cyfrifoldeb dirprwyedig Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol (£5.296 miliwn).
- Cafodd yr **Ysgolion** gyllid ar gyfer yr holl bwysau chwyddiannol yn cynnwys dyfarniadau cyflog, cyfraniadau pensiwn ac ynni, a chynnydd ar gyfer demograffeg. O ystyried maint yr heriau, gofynnwyd i'r ysgolion ddod o hyd i arbedion o 3% (£2.7 miliwn). Y sefyllfa net oedd cynnydd o £4.916 miliwn (5.82%).

4.3**Monitro Cyflawni Arbedion** - mae diweddariad ar gynnydd wrth gyflawni'r arbedion yn Atodiad 3. Mae dau o'r prif gynigion o ran arbedion a 70% o'r arbedion nad ydynt yn rhai strategol wedi cael eu cyflawni. Oherwydd amseriad eu rhoi ar waith, ni fydd rhai cynigion yn gwireddu arbediad blwyddyn lawn yn 2024/25 ac mae'r pwysau hyn yn ystod y flwyddyn yn cael eu monitro gyda chyllideb y gwasanaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ceir gwybodaeth fanwl am bwysau a risgiau gôr a than wario i wahanol wasanaethau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r materion canlynol hefyd:

6.1**Addysg a Gwasanaethau Plant** – Y rhagdybiaeth alldro presennol yw gorwariant o £2.063 miliwn (£1.956 miliwn o'r blaen). Bu i'r pwysau yng Ngofal Cymdeithasol i Blant

(£1.631 miliwn) gynyddu £88,000 y mis hwn oherwydd cost lleoliadau newydd. Bu i'r gorwariant yn y gwasanaethau Addysg (£432,000) gynyddu £19,000 y mis hwn, yn ymwneud â phwysau yn anghenion dysgu ychwanegol a phecynnau addysg mewn lleoliadau y tu allan i'r sir.

6.2**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol -** y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer y gwasanaeth cyfan yw gorwariant o £1.124 miliwn (dim newid ers mis diwethaf). Er nad yw'r gorwariant cyffredinol wedi newid y mis hwn, mae arbedion a gyflawnwyd o adolygiadau gwasanaeth wedi eu gwrthbwyso gan bwysau eraill o fewn y gwasanaeth. Mae'r gorwariant yn ymwneud yn bennaf â phwysau ar y gyllideb cynnal a chadw dros y gaeaf a pheidio â chyflawni arbedion blwyddyn lawn o'r cynigion cyllideb.

6.3**Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad -**amcanestyniad y gyllideb yw gorwariant o £680,000 oherwydd diffyg incwm maes parcio (£236,000), cynnydd yng nghostau contractau cludiant i'r ysgol (£431,000) a phwysau ar draws y gwasanaeth (£13,000). Mae pwysau uwch ar gyfer y gwasanaeth cludiant i'r ysgol wedi bod yn risg uchel trwy gydol y flwyddyn ac mae'r gorwariant yn seiliedig ar y contractau cludiant presennol. Mae risg yn parhau ar gyfer pwysau pellach o ganlyniad i ofynion llwybrau cludiant brys neu newydd yn ystod gweddill y tymor ysgol hwn.

6.3 **Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** – Y sefyllfa derfynol bresennol a ragwelir yw tanwariant o £800,000 (tanwariant o £578,000 yn flaenorol). Mae'r symudiad y mis hwn o £222,000 yn ymwneud â llai o bwysau o fewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion oherwydd y cynnydd da a wnaed wrth weithredu'r cynigion arbed sydd o gymorth wrth liniaru'r pwysau cyffredinol. Mae cyfanswm y tanwariant mewn Digartrefedd (-£1.3 miliwn) oherwydd llai o leoliadau llety dros dro brys wedi ei ddebydu gan gyfanswm gorwariant mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion (£500,000) oherwydd pwysau ar draws gwasanaethau pobl hŷn, gwasanaethau iechyd meddwl, anableddau cymhleth a byw yn y gymuned.

6.4 **Cyllidebau Corfforaethol** - Disgwylir y bydd y gyllideb yn tanwario o £7.128 miliwn (dim newid ers mis diwethaf) oherwydd dyfarniad grant yn ystod y flwyddyn a gafwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) (£3.868 miliwn) a rhyddhau cyllidebau wrth gefn ar gyfer costau pensiwn (£500,000), ynni (£1 miliwn), a'r adolygiad cyflog a graddfeydd (£1.76 miliwn) a ryddhawyd oherwydd oediadau yn y broses yn genedlaethol. Mae'r arian grant gan LlC i gefnogi pwysau tâl yn ystod y flwyddyn a chost y cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn

athrawon; roedd costau'r ddau yn ffurfio rhan o'r pwysau wrth osod cyllideb 2024/25. Er roedd disgwyl rhywfaint o gyllid ar gyfer cyfraniad pensiwn athrawon, roedd y swm yn ansicr. Bu i LlC ryddhau'r cyllid hwn yn dilyn ei gyllideb atodol, gan adlewyrchu effaith cyllideb Llywodraeth y DU (Hydref 2024), ar gyllideb Cymru.

6.5 **Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gymeradwyodd y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £4.9 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau Llywodraeth Cymru). Mae balansau ysgolion a gariwyd ymlaen i 2024/25 o £3.681 miliwn yn isel o'i gymharu â blynyddoedd diwethaf. Mae ysgolion yn rhagweld gostyngiad i'w balansau o £6.185 miliwn gan arwain at falans debyd net o £2.504 miliwn yn cael ei gario ymlaen i 2025/26. Rhagwelir y bydd gan y gyllideb di-ddirprwyedig orwariant o £432,000 oherwydd pwysau o fewn anghenion dysgu ychwanegol a phecynnau addysg mewn lleoliadau y tu allan i'r sir.

6.6 **Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** Rhagwelir y bydd balansau refeniw'r CRT a gariwyd ymlaen i 2024/25, sef £1.180 miliwn, yn gostwng o £420,000 i £760,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r symudiad hwn yn ymwneud â gostyngiad mewn incwm rhenti a chynnydd mewn cyfraniad refeniw i raglen gyfalaf y CRT, a gaiff ei wrthbwyso gan ffioedd dyledion amcangyfrifedig is. Mae cyllideb gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai o £20 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau wedi'u cynllunio i'r stoc dai bresennol (£14 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£6 miliwn).

6.7 **Rheoli'r Trysorlys** – Ddiwedd mis Rhagfyr, roedd cyfanswm benthyca'r Cyngor yn £318.123 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 4.47%. Roedd y balansau buddsoddi'n £4.4 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 4.62%.

6.8 Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor i'w weld yn Atodiad 4. Cymeradwywyd Cynllun Cyfalaf gwerth £81.8 miliwn a'r gwariant hyd yma yw £37.7 miliwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cyflwynwyd Asesiad o Effaith ar Les (AEL) yn cwmpasu'r mesurau lleihau'r gyllideb gyfunol ac effaith y cynnydd yn Nhreth y Cyngor i'r Cyngor ar 30 Ionawr.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail yn y tymor canolig. Mae'r pwysau yn y gwasanaeth cludiant i'r ysgol wedi bod yn risg hysbys trwy gydol y flwyddyn ac yn parhau yn risg gan y gallai'r costau gynyddu gydag unrhyw ofynion cludiant brys neu newydd ar gyfer gweddill y tymor ysgol. Mae meysydd risg uchel eraill yn cynnwys newidiadau i leoliadau preswyl o fewn Gwasanaethau Plant a lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Gan ein bod wedi cynnwys costau pensiwn Athrawon a dyfarniad cyflog y Cydgyngor Cenedlaethol o fewn y pwysau ar gyfer gosod cyllideb 2024/25; bydd y dyfarniad grant a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu effeithiau digwyddiadau ariannol Llywodraeth y DU yn ategu at ein cronfeydd wrth gefn i helpu i hybu gwydnwch ariannol y Cyngor yn y tymor canolig. Bydd y pwysau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau yn parhau i fod yn bryder a bydd angen eu monitro'n agos gan y disgwylir y bydd risgiau a phwysau pellach yn y misoedd i ddod.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Wynebodd y Cyngor her ariannol sylweddol wrth osod ei gyllideb ar gyfer 2024/25 gan nad oedd ein cyllid yn cynyddu'n ddigonol i gadw i fyny â phwysau chwyddiannol parhaus, cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod yr angen amdanynt. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn ffurfio'r sail ar gyfer yr ymdriniaeth o ran rheoli'r risgiau hyn.

10.2 Mae risgiau o ran y capasiti o fewn y tîm Cyllid oherwydd datblygiad parhaus y system ariannol newydd, a gafodd ei roi ar waith ym mis Ebrill, gyda rhywfaint o swyddi

gwag yn y gwasanaeth.  Wrth gyflwyno unrhyw system newydd bu rhywfaint o darfu o ganlyniad, gyda thimau yn gorfod gweithio i ganfod atebion i'r problemau hyn. Er mwyn lliniaru'r risg, mae'r tîm cyllid yn canolbwyntio ar feysydd risg uchel, i ddiweddaru'r Cabinet ar feysydd lle mae risg sylweddol o orwariant.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.